# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Virtual via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2023

Amser: 09.01 - 09.37

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Llinos Madeley, Clerc - Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol |

| | |
|---|---|
| | Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Rhaglen Cartrefi Clyd (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Sicrhau mwy o fanteision i fyd natur, yr amgylchedd a chymunedau drwy systemau draenio cynaliadwy – cyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru a ffordd ymlaen (30 munud)~~ *Gohiriwyd*
- Cyfnod Adrodd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (~~90~~ 30 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl Cyfnod Adrodd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.30pm.

**Dydd Mercher**

Tynnodd y Llywydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

- ~~Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Adam Price  (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 28 Mehefin*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

**Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023**

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Ddiogelwch Adeiladau (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael (15 munud)

Rhoddodd y Trefnydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Busnes am y ddadl Cyfnod 3 ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), a drefnwyd ar gyfer 11 Gorffennaf, gan nodi bod angen nifer fach o ddiwygiadau technegol i'r Bil oherwydd newidiadau a wnaethpwyd i Fil Caffael y DU. Gan fod yr amserlen ar gyfer Bil Caffael y DU wedi newid ac efallai na fydd y gwaith o graffu arno'n cael ei gwblhau cyn y terfyn amser presennol ar gyfer cyflwyno gwelliannau i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yng Nghyfnod 3, nododd y Trefnydd y bydd y Llywodraeth yn parhau i fonitro ei hynt a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw effaith y bydd hyn yn ei gael hyn ar ddadl Cyfnod 3 yn ôl yr angen.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 28 Mehefin 2023 –**

Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Adam Price (30 munud) – *wedi'i symud o 21 Mehefin*

**Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2023 –**

- Dadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2024-25 (60 munud)
- Dadl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Graffu ar Fframweithiau Cyffredin (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Blant, Pobl Ifanc ac Addysg – Os nad nawr, pryd? Diwygio radical i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)

### 3.4 Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer y sesiwn ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y trefniadau terfynol ar gyfer y sesiwn ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru ar 21 Mehefin, gan gynnwys y dyraniadau siarad ar gyfer Aelodau a fformat y cwestiynau i Lywodraeth Cymru.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd ar achub y blaen a chyfeirio'r Memorandwm Atodol ar y Bil Caffael

(Memorandwm Rhif 6) at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu, gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad arno erbyn 3 Gorffennaf.

Rhoddodd y Trefnydd y wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor Busnes am y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, gan nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn ei ragweld yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn toriad yr haf. Bydd gwelliannau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno cyn toriad y Senedd yn debygol o arwain at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall ac, o ganlyniad, mae’n debygol y caiff dadl arall ar gynnig cydsyniad ei chynnal ym mis Medi. Bydd y Trefnydd yn darparu diweddariad pellach cyn y toriad os yw’r sefyllfa'n newid.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch cais i aelodau’r Pwyllgor gynnal busnes y Pwyllgor yng Nghaergybi

Gwnaeth y Pwyllgor Busnes drafod y cais i aelodau Pwyllgor adael y Cyfarfod Llawn yn gynnar ar 12 Mehefin er mwyn ymgymryd â busnes y Pwyllgor yng Nghaergybi, a chytunwyd arno.

### 5.1a Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch cais i aelodau’r Pwyllgor wneud gwaith ymgysylltu ar 21 Mehefin

Gwnaeth y Pwyllgor Busnes drafod y cais i aelodau Pwyllgor adael y Cyfarfod Llawn yn gynnar ar 21 Mehefin er mwyn ymgymryd â gwaith ymgysylltu’r Pwyllgor, a chytunwyd arno.

## 5.2 Cyd-Gadeiryddion: Goblygiadau Ymarferol, Gweithdrefnol a Chyfreithiol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y goblygiadau ymarferol, gweithdrefnol a chyfreithiol sy'n deillio o benodi Cyd-Gadeiryddion i Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor:

- dylid cytuno ar brotocol rhwng y Cyd-Gadeiryddion yn amlinellu sut y byddant yn ymdrin â'u cyd-swyddogaethau gweithdrefnol a gweithredol/ymarferol yn ymarferol;
- dylid llunio Rheol Sefydlog Dros Dro ar gyfer y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ymchwiliad Covid i ymdrin â materion sy'n gofyn am ddarpariaeth newydd neu eglurhad yn y Rheolau Sefydlog.

Trafododd y Pwyllgor Busnes sawl mater i'w cynnwys mewn Rheol Sefydlog Dros Dro a chytunwyd mewn egwyddor y dylai gynnwys darpariaethau a oedd yn nodi'r hyn a ganlyn:

- bod cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at "gadeirydd" pwyllgor i gael eu dehongli i olygu "cyd-gadeirydd" y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ymchwiliad Covid;
- bod rhaid i swyddogaethau cadeiryddion pwyllgorau a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog gael eu harfer ar y cyd gan Gyd-Gadeiryddion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ymchwiliad Covid;
- bod rhaid cytuno ar brotocol rhwng y Cyd-Gadeiryddion sy'n nodi eu ffyrdd o weithio ar y cyd;
- na chaiff y trefniant cyd-gadeirio gynnwys mwy na dau Aelod unigol.

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr effaith pe bai un o'r ddwy swydd Gyd-Gadeirydd yn wag a daeth i'r casgliad bod y naill Gyd-Gadeirydd yn dal ei swydd yn annibynnol ar y llall ac y dylid ymdrin â'r mater yn y Rheol Sefydlog Dros Dro.

Hefyd, trafododd y Pwyllgor Busnes effaith absenoldeb dros dro un, neu'r ddau, o'r Cyd-Gadeiryddion, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cadeirio dros dro. Gwnaethant drafod a ddylid penodi Cyd-Gadeirydd dros dro o'r un grŵp â'r Cyd-Gadeirydd absennol, a chytunwyd mewn egwyddor y dylid ystyried manylion y materion ymarferol a gweithredol sy'n deillio o absenoldeb dros dro wrth ddatblygu protocol rhwng Cyd-Gadeiryddion.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Rheol Sefydlog Dros Dro arfaethedig ddod i ben os diddymir Pwyllgor Diben Arbennig ar Ymchwiliad Covid drwy benderfyniad y Senedd neu adeg diddymu'r Chweched Senedd, pa un bynnag sydd gynharaf.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn trafod y materion hyn â Chyd-Gadeiryddion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ymchwiliad Covid-19 ac yn dychwelyd i drafod Rheol Sefydlog Dros Dro drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol, gyda'r bwriad o'i gynnig yn y Senedd cyn toriad yr haf.

Cytunwyd hefyd i rannu â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol unrhyw fanylion gweithdrefnol perthnasol ar gyfer ei benderfyniadau ar faterion yn ymwneud â thâl y Cyd-Gadeiryddion.